

Rhif: WG35700



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Llywodraeth Cymru  
Dogfen Ymgynghori

## Isafbris Uned ar gyfer Alcohol

Dyddiad cyhoeddi: 28 Medi 2018  
Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 21 Rhagfyr 2018

**Trosolwg** Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi ac yn ceisio barn ar y lefel a ffeirir gan Lywodraeth Cymru fel isafbris uned at ddibenion Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, a basiwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym mis Mehefin.

**Sut i ymateb** Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn trwy gwblhau'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad/arolwg sydd ar gael ar ein gwefan:

<https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

Gellir dychwelyd ffurflenni atom ni cyn XX Rhagfyr 2018 trwy e-bost i: [DeddfIaA.MUPAct@gov.wales](mailto:DeddfIaA.MUPAct@gov.wales)

Fel arall, gellir defnyddio'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad ar gefn y ddogfen hon a'i dychwelyd atom drwy'r post i:

Tîm Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol)  
(Cymru) 2018  
Y Tîm Polisi Camddefnyddio Sylweddau  
Yr Ail Lawr  
Llywodraeth Cymru  
Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

**Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig**

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae'r ddogfen hon ar gael yn:  
<https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

**Manylion Cysylltu**

I gael rhagor o wybodaeth:

Tîm Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol)  
(Cymru) 2018  
Y Tîm Polisi Camddefnyddio Sylweddau  
Yr Ail Lawr  
Llywodraeth Cymru  
Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ  
E-bost: [DeddfIaA.MUPAct@gov.wales](mailto:DeddfIaA.MUPAct@gov.wales)

## Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hyn a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut y maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i ymgynghoriad, yna gall trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) gael ei gomisiynu i wneud y gwaith hwn. Ymgymmerir â gwaith o'r fath dim ond o dan contract. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a cadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion cyn cyhoeddi'ch ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth

Os caiff eich manylion chi eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael eu cadw am fwy na thair blynedd.

## Eich hawliau

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch chi a'u gweld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hynny
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael eu 'dileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG), ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth y mae Llywodraeth Cymru yn ei chadw ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, gweler y manylion cyswllt isod:

Y Swyddog Diogelu Data:  
Llywodraeth Cymru  
Parc Cathays  
CAERDYDD,  
CF10 3NQ

e-bost:

[Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru](mailto:Data.ProtectionOfficer@llyw.cymru)

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r  
Comisiynydd Gwybodaeth:  
Wycliffe House  
Water Lane  
Wilmslow  
Cheshire  
SK9 5AF  
Ffôn: 01625 545 745 neu  
0303 123 1113  
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

## RHAGAIR

Mae alcohol yn un o'r prif achosion o farwolaeth a salwch yng Nghymru; mae'n arwain at nifer o niweidion iechyd a chymdeithasol, yn enwedig i leiafrif sylweddol o bobl sy'n yfed yn ormodol.

Roedd 504 o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yn 2016 yng Nghymru, ac roedd bron i 55,000 o dderbyniadau ysbyty a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yn 2016-17. Mae modd atal pob marwolaeth sy'n gysylltiedig ag alcohol a phob derbyniad ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Mae'r niwed y gall alcohol ei achosi yn effeithio ar y bobl dan sylw yn ogystal â'u teuluoedd, gwasanaethau cyhoeddus a'r cymunedau lle maent yn byw. Trwy weithio gyda'n partneriaid, mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi cyfres o gamau a mentrau ar waith i fynd i'r afael â'r problemau niferus ac amrywiol sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol, ond mae'n eglur bod angen gwneud mwy.

Mae tystiolaeth yn awgrymu mai un o'r camau mwyaf effeithiol sydd ar gael i lywodraethau yw rheoli pris a fforddiadwyedd alcohol. Mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn glir ers amser bod yn rhaid i ymyrraeth brisio fod yn elfen allweddol o unrhyw strategaeth gynhwysfawr i fynd i'r afael â chamddefnydd o alcohol, yn arbennig gan fod fforddiadwyedd alcohol wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf.

Mae Prifysgol Sheffield wedi dadansoddi effeithiau o gyflwyno isafbris uned a fodelwyd, ar wahanol lefelau yng Nghymru - cyhoeddwyd yr adroddiad diweddaraf ar 22 Chwefror 2018. Amcangyfrifwyd ynddo y byddai isafbris uned o 50c yn arwain at 66 yn llai o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol a 1,281 yn llai o dderbyniadau ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol y flwyddyn. Amcangyfrifwyd hefyd y byddai yfwyr niweidiol yn yfed 269 yn llai o unedau y flwyddyn (gan wario £48 ychwanegol y flwyddyn). Byddai'r effaith ar yfwyr cymedrol yn llai – amcangyfrifir y byddent yn yfed 2.4 uned y flwyddyn yn llai (gan wario £3 y flwyddyn yn fwy).

Amcangyfrifir bod cyflwyno isafbris uned o 50c werth £783 miliwn i economi Cymru o ran lleihau salwch, trosedd ac absenoldeb o'r gwaith sy'n gysylltiedig ag alcohol, dros 20 mlynedd.

Ers inni gynnal yr ymgynghoriad cyntaf ar bolisi isafbris yn 2014, mae rhai gwrthwynebwyr i'r polisi wedi dweud y byddai'n well ganddynt ddefnyddio treth ar alcohol yn hytrach nag isafbris uned. Nid yw pwerau dros drethiant ar alcohol wedi eu datganoli i Gymru. Serch hynny, rydym yn credu y bydd pennu isafbris yn ein galluogi i dargedu'r peryglon i iechyd yn sgil alcohol rhad, yn ogystal â'r grwpiau a effeithir fwyaf, mewn modd na fyddai'n bosibl drwy gynyddu'r doll gartref neu TAW.

Pan ystyriodd Goruchaf Lys y DU ddeddfwriaeth pennu isafbris yn yr Alban yn ddiweddar, dyna'r casgliad y daeth iddo hefyd.

Drwy'r broses fodelu a gynhaliwyd gan Brifysgol Sheffield, amcangyfrifwyd y byddai angen cynyddu treth alcohol yn sylweddol er mwyn cyflawni yr un effeithiau ag isafbris uned o 50c. Yn bwysig, amcangyfrifwyd hefyd y byddai'r gostyngiad mewn anghydraddoldebau iechyd y gellir eu priodoli i alcohol yn is o dan y cynydd cyfatebol hynny i drethi.

Dangosodd y Cynulliad Cenedlaethol ei ymrwymiad i isafbris ym mis Mehefin pan basiwyd Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru). Derbyniodd Gydsyniad Brenhinol, a daeth yn Ddeddf, ar 9 Awst 2018. Rydym yn ymgynghori yn awr ar y rheoliadau drafft a fydd yn cael eu gwneud i bennu'r isafbris uned at ddibenion y Ddeddf hon.

Gan gymryd amrywiaeth o ffactorau i ystyriaeth, credaf y bydd pennu'r isafbris uned ar 50c at ddibenion Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 yn ein helpu i dargedu faint o alcohol y mae yfwr peryglus a niweidiol yn ei yfed, gyda'r nod o gyflawni rhagor o fuddion iechyd i'r rheini sydd yn y perygl mwyaf, gan ystyried yr effeithiau ar yfwr cymedrol a'r ymyrraeth yn y farchnad.

Hoffwn glywed eich safbwyntiau ar y rheoliadau arfaethedig a'r effeithiau a fyddai'n gysylltiedig â hwy.

**Vaughan Gething AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

## **CYFLWYNIAD: BETH YW'R PRIF FATERION?**

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol)(Cymru) 2018 (y Ddeddf) yn gweithredu penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddarparu sail ddeddfwriaethol ar gyfer mynd i'r afael â rhai o'r pryderon iechyd hirhoedlog a phenodol sy'n ymwneud ag effeithiau goryfed alcohol yng Nghymru.

Mae'n adlewyrchu ymrwymiad cadarn i wella a diogelu ymhellach iechyd poblogaeth Cymru ac yn rhan o raglen waith ehangach a pharhaus i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Mae'r Ddeddf yn darparu isafbris ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru gan unigolion penodol ac yn ei gwneud yn drosedd i alcohol gael ei werthu neu ei gyflenwi gan fanwerthwyr alcohol o safleoedd cymwys am lai na'r pris hwnnw<sup>1</sup>. Pan ddaw i rym, bydd yn cyflwyno cyfres o droseddau a chosbau yn ymwneud â'r system newydd ac mae'n darparu pwerau a dyletswyddau ychwanegol i awdurdodau lleol i'w galluogi i orfodi'r ddeddfwriaeth.

Nod y Ddeddf yw diogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidiol sy'n tueddu i yfed mwy o alcohol cost isel a chryfder uchel. Mae'n darparu fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris perthnasol am alcohol trwy luosi cryfder canrannol yr alcohol, ei gyfaint a'r isafbris uned, gan ganiatáu i ni dargedu yn benodol gwerthu a chyflenwi yr alcohol cost isel a chryfder uchel hwnnw.

Mae'r Ddeddf yn darparu y bydd yr isafbris uned at ddibenion y Ddeddf yn cael ei nodi mewn rheoliadau. Cyn cyflwyno'r rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'w hystyried, mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar y lefel a ffefrir – i gasglu safbwyntiau gan unigolion, busnesau, cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill. Yn rhan o'r ymgynghoriad hwn, nodir rheoliadau drafft yn atodiad un, ynghyd â Memorandwm Esboniadol ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft.

Defnyddir yr ymatebion i lunio'r Memorandwm Esboniadol a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol terfynol, a fydd yn cyd-fynd â'r rheoliadau drafft pan gânt eu cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol. Caiff crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad ei gynnwys yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol a bydd hefyd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

---

<sup>1</sup> Mae ystyr penodol i'r termau hyn at ddibenion y Ddeddf, fel a nodir yn adran 3 a 4 ohoni.

**Nid yw'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud ag egwyddor isafbris.** Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymgynghori ddwywaith ar yr egwyddor o gyflwyno isafbris ar gyfer alcohol yng Nghymru: yn 2014 yn rhan o'r Papur Gwyn Iechyd y Cyhoedd<sup>2</sup> ac yn 2015 ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) drafft<sup>3</sup>. Bydd trafodaethau â rhanddeiliaid, sydd wedi eu cynnal yn gyson, yn glŷn â gweithredu'r ddeddfwriaeth, hefyd yn parhau yn y misoedd nesaf a hefyd ar ôl i'r Ddeddf ddod i rym.

---

<sup>2</sup> Ymgynghoriad 2014 ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd Gwranddo arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig.

<https://gov.wales/betaconsultations/healthsocialcare/white-paper/?lang=cy>

<sup>3</sup> Ymgynghoriad 2015 ar y Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) Drafft.

<https://gov.wales/betaconsultations/healthsocialcare/alcohol/?lang=cy>

## **BLE'R YDYM NI NAWR?**

**Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei lefel a ffeirir fel isafbris uned. Gan gymryd amrywiaeth o ffactorau i ystyriaeth, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai isafbris uned o 50c yn ymateb cymesur i fynd i'r afael â'r risgiau iechyd yn sgil yfed gormod o alcohol. Rydym o'r farn y bydd y lefel hon yn cynnig cydbwysedd rhesymol rhwng manteision iechyd y cyhoedd a chymdeithasol a ragwelir ac ymyrraeth yn y farchnad.**

**Mae'r papur hwn yn cynnig gwybodaeth gefndirol i bobl sy'n dymuno cymryd rhan yn yr ymgynghoriad.**



## **Sut ydych chi'n cyfrifo'r isafbris cymwys am alcohol?**

Mae'r Ddeddf yn cynnwys fformiwla benodol ar gyfer cyfrifo'r isafbris cymwys am alcohol ar sail tair elfen allweddol: 1) yr isafbris uned; 2) cryfder yr alcohol a 3) cyfaint yr alcohol sy'n cael ei gyflenwi. Mae'r fformiwla hon wedi ei dewis yn fwriadol er mwyn gallu targedu alcohol cryf a rhad gan mai'r diodydd hyn y mae'r bobl sydd mewn mwy o berygl o niwed oherwydd eu harferion yfed yn dueddol o'u hyfed.

Os caiff diod alcoholaidd ei gwerthu ar bris uwch na'i hisafbris cymwys, ni fydd angen newid y pris hwnnw. Os caiff y cynnyrch ei werthu am lai na'r isafbris cymwys ar hyn o bryd, yna bydd angen codi'r pris hwnnw yn unol â'r isafbris.

### **FFORMIWLA AR GYFER CYFRIFO'R ISAFBRIS CYMWYS: M x S x V**

- (a) **M** yw'r Isafbris Uned (i'w nodi mewn rheoliadau).
- (b) **S** yw cryfder canrannol yr alcohol, a fynegir fel rhif prifol (felly, er enghraifft 5 fydd y rhif prifol perthnasol os mai 5% yw'r cryfder).
- (c) **V** yw cyfaint yr alcohol mewn litrau.

### **ENGHRAIFFT O SUT Y BYDD Y FFORMIWLA YN GWEITHIO**

#### **CYFRIFO'R ISAFBRIS CYMWYS AM BOTEL O SEIDR**

#### **M x S x V**

Sut y byddai'r fformiwla yn gweithio pe bai'r isafbris uned (M) yn cael ei nodi fel 50c mewn rheoliadau:

Byddai gan botel o seidr 3 litr (V), cryfder 7.5% (S) isafbris gwerthu o £11.25 (0.5 x 7.5 x 3) sef cyfanred tair elfen y fformiwla.

$$0.5 \times 7.5 \times 3$$

$$\text{ISAFBRIS CYMWYS} = \text{£}11.25$$

## **ENGHRAIFFT O SUT Y BYDD Y FFORMIWLA YN GWEITHIO**

### **CYFRIFO'R ISAFBRIS CYMWYS AM BOTEL O WIN**

#### **M x S x V**

Sut y byddai'r fformiwla yn gweithio pe bai'r isafbris uned (M) yn cael ei nodi fel 50c mewn rheoliadau:

Byddai gan botel o win 75cl (V), cryfder 12.5% ABV (S) isafbris gwerthu o £4.69 (0.5 X 12.5 X 0.75) sef cyfanred tair elfen y fformiwla.

**0.5 X 12.5 X 0.75**

**ISAFBRIS CYMWYS = £4.69**

## **ENGHRAIFFT O SUT Y BYDD Y FFORMIWLA YN GWEITHIO**

### **CYFRIFO'R ISAFBRIS CYMWYS AM BOTEL O FODCA**

#### **M x S x V**

Sut y byddai'r fformiwla yn gweithio pe bai'r isafbris uned (M) yn cael ei nodi fel 50c mewn rheoliadau:

Byddai gan botel o fodca 70cl (V), cryfder 40% ABV (S) isafbris gwerthu o £14 (0.5 X 40 X 0.7) sef cyfanred tair elfen y fformiwla.

**0.5 X 40 X 0.7**

**ISAFBRIS CYMWYS = £14.00**

### **Ar bwy y bydd hyn yn effeithio?**

Disgwylir mai ychydig iawn o effaith yn unig a fyddai ar bobl sy'n yfed yn unol â'r canllawiau yfed risg is, sef dim mwy na 14 uned yr wythnos, gan fod yfwyr cymedrol yn yfed llai o alcohol a hefyd oherwydd nad ydynt yn tueddu i brynu cymaint o'r alcohol rhatach y byddai cyflwyno'r isafbris yn effeithio fwyaf arno.

Un o'r rhesymau pam yr ydym yn ystyried bod isafbris uned o 50c yn briodol ar y pwynt hwn yw oherwydd bod y dystiolaeth yn rhoi amcangyfrifon inni o'r effeithiau. Mae'n awgrymu y bydd isafbris uned o 50c yn effeithiol wrth dargedu faint y mae yfwyr peryglus a niweidiol yn ei yfed (gan eu bod yn tueddu i yfed mwy o gynhyrchion alcohol rhatach a chryfach), gan sicrhau cyn lleied o effaith â phosibl ar yfwyr cymedrol.

Er y disgwylir y bydd pennu isafbris yn golygu y bydd pobl yn yfed llai o alcohol, byddant yn talu mwy am gynhyrchion a werthwyd yn flaenorol am lai na'r isafbris cymwys. Bydd unrhyw refeniw ychwanegol sy'n gysylltiedig ag isafbris yn mynd i gynhyrchwyr diodydd a manwerthwyr, nid i Lywodraeth Cymru. Gall eraill yn y gadwyn gyflenwi weld cynnydd yn eu refeniw hefyd.

Yn ystod y cyfnod craffu ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol)(Cymru), cododd ASau a rhanddeiliaid allanol bryderon ynglŷn ag effeithiau posibl cyflwyno isafbris uned ar y fewnfasnach ac yn benodol, yr effeithiau posibl ar y diwydiant tafarndai yng Nghymru. Mae'n llai tebygol y bydd yr isafbris uned o 50c a ffeirir yn effeithio ar ddiodydd alcoholaidd mewn tafarndai, barau, clybiau nos a bwytai oherwydd y bydd eu prisiau eisoes yn uwch. Fodd bynnag, byddai isafbris uned uwch yn effeithio mwy ar y fewnfasnach, gan fod canran uwch o unedau a werthir wedi'u cynnwys.

## TYSTIOLAETH O BLAID NEWID

### Pam mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno isafbris am alcohol?

Amcan yr isafbris yn y pen draw yw mynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gan gynnwys derbyniadau ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, trwy leihau faint o alcohol y mae yfwyr peryglus a niweidiol yn ei yfed. Yn benodol, ei nod yw diogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidiol (gan gynnwys pobl ifanc) sy'n tueddu i yfed mwy o gynhyrchion cost isel a chynnwys alcohol uchel.

Comisiynwyd Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield ym Mhrifysgol Sheffield gan Lywodraeth Cymru i fodlu effaith bosibl amrywiaeth o bolisïau prisio alcohol ar Gymru. Cyhoeddodd y grŵp yr adroddiad *Model-Based Appraisal of Minimum Unit Pricing for Alcohol in Wales*<sup>4</sup> ym mis Rhagfyr 2014. Diweddarwyd y model â data diweddaraf Cymru, gan gynnwys data yfed alcohol o Arolwg Cenedlaethol Cymru a data gwerthu ar gyfer rhanbarth Cymru a Gorllewin Lloegr. Cyhoeddwyd amcangyfrifon diwygiedig o effaith gwahanol lefelau o isafbris uned (yn amrywio o 35c i 70c, mewn cynyddrannau pum ceiniog) ar 22 Chwefror 2018.<sup>5</sup>

Daeth y dadansoddiad yn 2018 gan Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield<sup>6</sup> i'r casgliad bod nifer o fanteision allweddol o gyflwyno isafbris uned am alcohol yng Nghymru, gan gynnwys:

<sup>4</sup> <http://wales.gov.uk/statistics-and-research/research-likely-impact-public-attitudes-towards-minimum-unit-price-alcohol/?lang=cy>

<sup>5</sup> Angus, C., Holmes, J., Brennan, A. a Meier, P. (2018) Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru <http://gov.wales/docs/caecd/research/2018/180222-comparative-impact-minimum-unit-pricing-taxation-policies-cy.pdf>

<sup>6</sup> Dylid nodi bod y model yn tybio bod trothwy'r isafbris uned yn cael ei ddiweddarau'n flynyddol yn unol â chwyddiant.

- Byddai polisiâu isafbris uned yn effeithiol ar gyfer lleihau faint o alcohol sy'n cael ei yfed, niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol (gan gynnwys marwolaethau, cyfnodau yn yr ysbyty, troseddau ac absenoldebau o'r gwaith sy'n gysylltiedig ag alcohol) a'r costau sy'n gysylltiedig â'r niweidiau hynny.
- Byddai polisiâu isafbris uned yn cael effaith fach yn unig ar yfwyr cymedrol,<sup>7</sup> byddai'r effeithiau ar yfwyr peryglus yn fwy,<sup>8</sup> a byddai'r effeithiau mwyaf sylweddol ar yfwyr niweidiol.<sup>9</sup> Mae'r yfwyr hyn yn fwy tebygol o yfed y mathau o alcohol sy'n cael eu heffeithio gan isafbris uned.
- Amcangyfrif bod cyflwyno isafbris uned o 50c am alcohol werth £783 miliwn i economi Cymru, o ran gostyngiadau i salwch, trosedd ac absenoldeb o'r gwaith dros gyfnod o 20 mlynedd. Mae hon yn effaith gyfanredol, wedi ei hysgogi gan yr effaith fwy ar y rheini sy'n yfwyr peryglus a niweidiol, y bydd faint y maent yn ei yfed yn gostwng fwyaf mewn termau absoliwt<sup>10</sup>.

Er bod cynnydd yn cael ei wneud i leihau lefelau'r alcohol sy'n cael ei yfed yng Nghymru (yn seiliedig ar ddata hunangofnodedig o Arolwg Cenedlaethol Cymru), mae lefelau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ac yfed peryglus yn dal i fod yn broblem. Mae Arolwg

---

<sup>7</sup> Yfwyr cymedrol yw'r rheini sy'n yfed llai na 14 uned yr wythnos.

<sup>8</sup> Yfwyr peryglus – dynion sy'n yfed rhwng 14 a 50 uned yr wythnos yn rheolaidd. Menywod sy'n yfed rhwng 14 a 35 uned yr wythnos yn rheolaidd. Fel y diffiniwyd yn adroddiad Angus et al. (2018): Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisiâu Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol.

<sup>9</sup> Yfwyr niweidiol – dynion sy'n yfed mwy na 50 uned o alcohol yr wythnos yn rheolaidd. Menywod sy'n yfed mwy na 35 uned o alcohol yr wythnos yn rheolaidd. Fel y diffiniwyd yn adroddiad Angus et al. (2018): Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisiâu Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol.

<sup>10</sup> Am ddadansoddiad llawn o effeithiau isafbris uned o 50c, gweler hefyd: Angus, C. , Holmes, J., Brennan, A. a Meier, P. (2017) Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisiâu Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad interim <http://gov.wales/docs/caecd/research/2017/171129-comparative-impact-minimum-unit-pricing-taxation-policies-interim-cy.pdf>

Cenedlaethol Cymru 2017-18 yn dangos bod bron i un o bob pum oedolyn (18%) yn dweud eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau wythnosol.<sup>11</sup>

Un elfen allweddol sydd ar goll o ddull Llywodraeth Cymru o leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol hyd yn hyn fu ymyrraeth i fynd i'r afael â phris isel alcohol. Bydd cyflwyno isafbris am alcohol yn rhoi sylw i'r bwlch hwn.

Er y gallai yfed lefelau isel o alcohol gynnig rhai manteision o ran amddiffyn rhag clefyd isgemia'r galon,<sup>12</sup> strôc isgemia<sup>13</sup> a diabetes math 2,<sup>14</sup> ceir tystiolaeth gymhellol a gasglwyd dros sawl degawd bod yfed alcohol yn ormodol<sup>15</sup> yn achosi niwed a bod y tebygolrwydd o niwed yn gymesur i faint o alcohol sy'n cael ei yfed.<sup>16 17</sup> Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd, gall alcohol niweidio bron pob organ a system yn y corff ac mae ei ddefnyddio yn cyfrannu at ddatblygu mwy na 60 o wahanol glefydau a chyflyrau iechyd.<sup>18</sup> Mae hyn yn cynnwys mathau penodol o ganser, clefyd yr afu, niwed i'r ymennydd, gwenwyno, pwysedd gwaed uchel, strôc, anhwylderau'r abdomen, anafiadau ac amrywiaeth o gyflyrau iechyd meddwl.<sup>19</sup>

---

<sup>11</sup> Arolwg Cenedlaethol Cymru 2016-17: [https://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?tab=el\\_home&topic=population\\_health&lang=cy](https://gov.wales/statistics-and-research/national-survey/?tab=el_home&topic=population_health&lang=cy)

<sup>12</sup> Roerecke, M. a Rehm, J. (2012) *The cardioprotective association of average alcohol consumption and ischaemic heart disease: a systematic review and meta-analysis*. *Addiction*. Cyfrol 107 (7). Tudalennau 1246-60.

<sup>13</sup> Patra, J., Taylor, B., Irving, H., Roerecke, M., Baliunas, D., Mohapatra, S. et al. (2010) *Alcohol consumption and the risk of morbidity and mortality for different stroke types - a systematic review and meta-analysis*. *BMC Public Health*, Cyfrol 10.

<sup>14</sup> Baliunas, D.O., Taylor, B.J., Irving, H., Roerecke, M., Patra, J., Mohapatra, S. et al. (2009) *Alcohol as a Risk Factor for Type 2 Diabetes, A systematic review and meta-analysis*. *Diabetes Care* Cyfrol 32 (11). Tudalennau 2123-32.

<sup>15</sup> Ystyrir bod yfed mwy na'r terfynau a argymhellir o 14 uned yr wythnos yn ormodol fel rheol.

<sup>16</sup> INSERM 2001. *Alcohol: Health effects INSERM Collective Expert Reports* [Rhynggrwyd]. Paris: Institut national de la santé et de la recherche médicale; 2000-2001. PMID:21348151.

<sup>17</sup> Kumar, P. a Clark, M. (2012) *Kumar and Clark's Clinical Medicine*. 8fed Argraffiad. Elsevier.

<sup>18</sup> Sefydliad Iechyd y Byd (2009) *Harmful Use of Alcohol*. [http://www.who.int/nmh/publications/fact\\_sheet\\_alcohol\\_en.pdf](http://www.who.int/nmh/publications/fact_sheet_alcohol_en.pdf). Gweler hefyd: Public Health England (2016) *The Public Health Burden of Alcohol and the Effectiveness and Cost-Effectiveness of Alcohol Control Policies - An Evidence Review*. <https://www.gov.uk/government/publications/the-public-health-burden-of-alcohol-evidence-review>

<sup>19</sup> Sheild, K., Parry, C. a Rehm, J. (2013) *Measuring the burden: Alcohol's evolving impact*. *Alcohol Research: Current Reviews*. Cyf. 35 (2). Tudalennau 117-8.

Mae lefel yr alcohol sy'n cael ei yfed yng Nghymru wedi arwain at (ac yn parhau i arwain at) amrywiaeth o niweidiau iechyd a chymdeithasol, yn enwedig i'r bobl hynny sy'n yfed yn ormodol. Cofrestrwyd 504 o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru yn 2016, a dynion oedd y mwyafrif (336 o ddynion a 168 o fenywod). Roedd y ffigurau wedi cynyddu 8.9% o'r flwyddyn cynt – 463 o farwolaethau a oedd yn gysylltiedig ag alcohol yn 2015. Yng Nghymru (fel yn y DU), cyrhaeddodd cyfraddau marwolaethau a oedd yn ymwneud yn benodol ag alcohol eu uchaf yn 2008 ac maent wedi gostwng rhyw fymryn ers hynny.<sup>20</sup>

Mae'n bwysig amlygu dangosyddion allweddol eraill o niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Yn 2016-17, roedd ychydig yn llai na 55,000 o dderbyniadau ysbyty y gellid eu priodoli i alcohol yng Nghymru.<sup>21</sup> Mae Model Polisi Alcohol Sheffield yn amcangyfrif bod alcohol yn costio £159 miliwn y flwyddyn i'r GIG yng Nghymru.<sup>22</sup>

Mae'r gweithrediaethau a'r deddfwrfeydd eraill yn rhannu'r angen i dargedu prisiau alcohol. Er enghraifft, mae Senedd yr Alban wedi pasio ac mae Llywodraeth yr Alban wedi gweithredu deddfwriaeth ar gyfer isafbris uned. Mae isafbris uned o 50c mewn grym yn yr Alban ers 1 Mai 2018 ac rydym yn monitro'n ofalus sut y gweithredir y ddeddfwriaeth yno.

Fel yr amlygir yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol (a gyhoeddir ynghyd â'r ddogfen ymgynghori hon), bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal adolygiad mewnol o lefel y pris hwn ar ôl y ddwy flynedd gyntaf. Bydd yr adolygiad hwn yn hysbysu'r ystyriaeth o lefel gychwynol yr isafbris uned a bennwyd mewn rheoliadau a pha un a ddylid ei newid a chyflwyno rheoliadau newydd gerbron y Cynulliad Cenedlaethol.

---

<sup>20</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) *Data mining Wales: The annual profile for substance misuse 2016-17*. GIG Cymru.

<http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/documents/888/FINAL%20profile%20for%20substance%20misuse%202016-17%20%282%29.pdf>

<sup>21</sup> Iechyd Cyhoeddus Cymru (2017) *Data mining Wales: The annual profile for substance misuse 2016-17*. GIG Cymru.

<sup>22</sup> Angus, C., Holmes, J., Brennan, A. a Meier, P. (2018) Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisiau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Yn ogystal â hyn - ac yn unol â darpariaethau'r Ddeddf - bydd Gweinidogion Cymru, ar ddiwedd cyfnod o bum mlynedd, yn cyflwyno gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ac yn cyhoeddi adroddiad ar weithrediad ac effaith y Ddeddf yn ystod y cyfnod hwnnw. Caiff yr isafbris ei ddiddymu ar ddiwedd cyfnod o chwe blynedd, oni bai y gwneir rheoliadau gan Weinidogion Cymru i barhau ag ef (gelwir hyn yn gymal machlud).

Rydym yn credu bod y dystiolaeth ar y graddau y bydd isafbris yn cael effaith ar yfed peryglus a niweidiol mor gynhwysfawr ac argyhoeddiadol ag y gall fod. Fodd bynnag, rydym yn dymuno gwneud yn siŵr y bydd y ddeddfwriaeth yn fesur polisi effeithiol ac wedi'i thargedu fel y byddwn yn disgwyl iddi fod - dyma pam y rhoddwyd cymal machlud a dull adolygu priodol yn y Ddeddf.

**Mae'r adran ganlynol o'r ddogfen ymgynghori yn nodi'r rhesymeg am isafbris uned a ffefrir o 50c.**



## CYNNIG LLYOWDRAETH CYMRU

### Isafbris Uned Arfaethedig Llywodraeth Cymru

50c yw'r lefel a ffefrir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer yr isafbris uned. Bydd hyn yn targedu bron i hanner (47%) yr holl alcohol allfasnach<sup>23</sup> sy'n cael ei brynu ac ychydig yn llai na hanner yr alcohol sy'n cael ei brynu gan yfwyr niweidiol. Bydd hyn yn effeithio ar ychydig dros un rhan o bump yn unig o'r alcohol sy'n cael ei brynu gan yfwyr cymedrol. Bydd yfwyr niweidiol yn cyfrif am dros hanner y gostyngiad a amcangyfrifir mewn yfed alcohol. Bydd yr effaith ar yfwyr cymedrol yn fach iawn, yn cyfrif am lai na 10% o'r gostyngiad mewn yfed alcohol, yn unol â nod targed y ddeddfwriaeth.

50c oedd isafbris uned a ffefrir Llywodraeth Cymru yn flaenorol ac mae wedi ymgynghori ar y sail hon ddwywaith (yn fwyaf diweddar yn 2015), ac yn dilyn ystyriaeth ofalus o ffactorau a datblygiadau perthnasol ers hynny, hwn yw'r isafbris a ffefrir o hyd.

Mae isafbris uned o 50c yn gyson â'r lefel isafbris uned a gyflwynwyd yn yr Alban. Mae manwerthwyr a chynrychiolwyr y diwydiant alcohol wedi nodi yn barhaus bod yn well ganddynt gysondeb, i'r graddau y mae hynny'n bosibl, i hwyluso ei weithrediad.

Nodir isod grynodedeb o effeithiau a amcangyfrifir yn sgil isafbris uned o 50c, yn ogystal â'r rhesymeg y tu ôl i'r lefel hon a ffefrir. Mae hon yn seiliedig ar ddadansoddiadau Prifysgol Sheffield<sup>24</sup> a ffactorau perthnasol eraill. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft ar gyfer y rheoliadau, sydd wedi'i gynnwys yn atodiad un,

<sup>23</sup> Diffiniad allfasnach yw manau lle caiff alcohol ei werthu i'w yfed oddi ar y safle, e.e. siopau ac archfarchnadoedd. Diffiniad mewnfasnach yw manau lle caiff alcohol ei werthu i'w yfed yn y safle, e.e. tafarnau a bwytai. Ffynhonnell: Yr Eirfa yn Angus, C., Holmes, J., Brennan, A. and Meier, P. (2018) Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o effaith gymharol polisïau Isafbris Uned a threthu yng Nghymru: Adroddiad terfynol. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

<sup>24</sup> Gweler Angus et al. (2017) ac Angus et al. (2018).

<https://gov.wales/docs/caecd/research/2017/171129-comparative-impact-minimum-unit-pricing-taxation-policies-interim-cy.pdf>

<https://gov.wales/docs/caecd/research/2018/180222-comparative-impact-minimum-unit-pricing-taxation-policies-cy.pdf>

yn nodi'r dadansoddiad llawn o effeithiau tair gwahanol lefel o isafbris uned.

- **Po fwyaf yr ydym yn ei yfed, y mwyaf o niwed yr ydym yn ei ddiodeff. Felly, rydym yn dymuno targedu alcohol rhad (a ffefrir gan yfwyr trymach ac a werthir yn yr allfasnach yn bennaf) gan gydbwyso hyn ag ymyrraeth yn y farchnad.** Yn 2016, prynwyd 37% o unedau am lai na 50c yr uned. Fodd bynnag, mae hyn yn cynrychioli ychydig yn llai na hanner yr holl alcohol allfasnach (47% wedi ei werthu am lai na 50c). Am isafbris uned o 50c, mae yfwyr niweidiol yn prynu mwy o'u halcohol ar sail allfasnach nag yfwyr peryglus ac yfwyr cymedrol (76% o'i gymharu â 67% a 60% yn eu trefn).
- **Rydym yn ceisio targedu faint y mae yfwyr peryglus a niweidiol yn ei yfed gan leihau'r effeithiau ar yfwyr cymedrol.** Prynodd yfwyr cymedrol 22 y cant o'u hunedau islaw'r trothwy hwn, ac roedd y ffigurau ar gyfer yfwyr peryglus a niweidiol yn uwch (36% a 46% yn eu trefn). Byddai cyflwyno isafbris uned o 50c yng Nghymru yn gysylltiedig â gostyngiadau o 3.6 y cant i faint sy'n cael ei yfed ar lefel poblogaeth, sy'n cyfateb i 22 uned fesul yfwr y flwyddyn. Ond rhagwelir y bydd y gostyngiadau i faint sy'n cael ei yfed fwyaf ymhlith yfwyr niweidiol (6.8%, 268.7 uned fesul yfwr bob blwyddyn) ac yfwyr peryglus (3.0%, 37.4 uned fesul yfwr bob blwyddyn). Byddai'r effeithiau lleiaf ymhlith yfwyr cymedrol (1.1%, 2.4 uned fesul yfwr bob blwyddyn).
- **Ar gyfer isafbris uned uwch na 50c, byddai'r cynnydd mewn gwariant yn uwch ymhlith yfwyr cymedrol.** Yn dilyn newidiadau i faint sy'n cael ei yfed, amcangyfrifir y bydd gwariant ar alcohol yn cynyddu 1.4% neu £8 fesul yfwr bob blwyddyn o dan isafbris uned o 50c. Byddai'r cynnydd mwyaf i wariant ymhlith yfwyr niweidiol (1.7%, £48 fesul yfwr bob blwyddyn) a byddai cynnydd llai ymhlith yfwyr peryglus (1.5%, £18 fesul yfwr bob blwyddyn) ac yfwyr cymedrol (1.1%, £3 fesul yfwr bob blwyddyn).

- **Dengys tystiolaeth y gellir gweld patrwm eglur wrth edrych ar yr ystod o drothwyon isafbris uned a fodelwyd. Mae lefelau uwch yn arwain at ostyngiadau cyffredinol uwch o ran faint sy'n cael ei yfed yn ogystal â gostyngiadau o ran niwed perthnasol i alcohol; fodd bynnag, bydd y modelau hyn wedi eu targedu yn llai penodol hefyd, ac effeithir ar ganran uwch o'r alcohol a brynir gan yfwyr cymedrol, ac felly bydd yr effaith yn fwy ar faint y maent yn ei yfed. Hynny yw, bydd trothwy isafbris uned uwch yn arwain at fwy o effaith ond bydd yr effaith yn llai penodol ar gyfer y grwpiau o boblogaeth sydd yn y perygl mwyaf o niwed.** O gyfanswm y gostyngiad i'r unedau sy'n cael eu hyfed am lai nag isafbris uned o 50c, byddai 52% yn digwydd ymhlith yfwyr niweidiol, 40% ymhlith yfwyr peryglus ac 8% ymhlith yfwyr cymedrol.
- **Gall gosod isafbris i alcohol wneud cyfraniadau pwysig at leihau anghydraddoldebau iechyd drwy leihau lefelau yfed peryglus a niweidiol ymhlith y rhai hynny sy'n byw mewn tlodi – a hwn yw un o brif amcanion y ddeddfwriaeth.** Am isafbris uned o 50c, yfwyr o'r cwintel o amddifadedd mwyaf fyddai'n gyfrifol am 50% o'r gostyngiad i'r unedau sy'n cael eu hyfed. Am isafbris uned sy'n uwch na 50c, amcangyfrifir effeithiau mwy ar y rhai hynny sy'n byw mewn tlodi yn ogystal â gostyngiad yn faint o alcohol sy'n cael ei yfed. Fodd bynnag, mae effeithiau a amcangyfrifir ar yfwyr cymedrol sy'n byw mewn tlodi hefyd yn fwy, ac nid y rheini y bwriedir eu targedu gan y ddeddfwriaeth hon.
- **Nod yr isafbris yw lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. Er yr amcangyfrifir y bydd isafbris uned uwch yn arwain at ostyngiadau mwy o ran faint y mae yfwyr peryglus a niweidiol yn ei yfed â'r gostyngiad cysylltiedig yn nifer y marwolaethau a derbyniadau ysbyty cysylltiedig ag alcohol, amcangyfrifir hefyd y bydd yn cael mwy o effaith ar yfwyr cymedrol.** Amcangyfrifir y bydd isafbris uned o 50c yn arwain at 66 neu 8.5% yn llai o farwolaethau y gellir eu priodoli i alcohol y flwyddyn a 1,281 neu 3.6% yn llai o dderbyniadau ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol y flwyddyn. O gyfanswm y gostyngiad i farwolaethau yn deillio o isafbris uned o 50c, daw amcangyfrif o 69% ymhlith yfwyr niweidiol, daw 57% ymhlith y cwintel o amddifadedd mwyaf a daw 45% ymhlith yfwyr niweidiol yn y cwintel o amddifadedd mwyaf. 44%, 49% a 24% yw'r

ffigurau cyfatebol ar gyfer gostyngiadau i dderbyniadau ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol.

- **Mae'r buddion a amcangyfrifir o ganlyniad i'r gostyngiadau a ragwelir i niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, ar ôl cyflwyno isafbris, yn sylweddol.** Amcangyfrifir mai £783 miliwn fydd cyfanswm y gostyngiad gostyngol i gostau cymdeithasol alcohol dros 20 mlynedd yn deillio o'r gostyngiadau i niwed y gellir ei briodoli i alcohol ar ôl cyflwyno isafbris uned o 50c - neu ostyngiad o 4.7% i gyfanswm costau. Mae hyn yn cynnwys gostyngiad o 4.6% neu £91 miliwn i gostau gofal iechyd uniongyrchol, gostyngiad o 7.5% neu £490 miliwn i golledion o Flynyddoedd o Fwyd wedi'u Haddasu yn ôl Ansawdd (QALYs), gostyngiad o 2.5% neu £188 miliwn i gostau trosedd uniongyrchol a chysylltiedig â QALY a gostyngiad o 2.1% neu £14 miliwn i gostau sy'n gysylltiedig ag absenoldebau o'r gwaith.

## **Y CAMAU NESAF**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar ei lefel arfaethedig o isafbris uned am gyfnod o 12 wythnos. Bydd yna'n ystyried yn ofalus ac yn cyhoeddi crynodeb o unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a ddaw. Ar ôl ystyried yr ymatebion i'r cwestiynau, cyflwynir rheoliadau drafft yn nodi isafbris uned at ddibenion y Ddeddf gerbron y Cynulliad Cenedlaethol i'w hystyried.

Yn amodol ar gymeradwyaeth y Cynulliad Cenedlaethol i'r rheoliadau hyn, rydym yn rhagweld ar hyn o bryd y bydd isafbris yn cael ei gyflwyno o haf 2019 ymlaen. Bydd hyn yn rhoi amser i bobl baratoi, cyn gweithredu'r drefn isafbris newydd.

## CWESTIYNAU YMGYNGHORI A CHYFLWYNO EICH YMATEB

Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori er mwyn casglu safbwyntiau gan unigolion, busnesau, cyrff cyhoeddus a rhanddeiliaid eraill am y pris a ffefrir gan Lywodraeth Cymru sef 50c yr uned. Bydd yr ymgynghoriad yn para am gyfnod o 12 wythnos ac yn dod i ben ar 21 Rhagfyr.

- 1. Rydym yn gwahodd sylwadau ar y rheoliadau drafft sydd wedi eu cynnwys yn atodiad un, sy'n nodi'r isafbris uned arfaethedig o 50c.**
- 2. Os ydych yn credu y dylid nodi lefel wahanol o isafbris uned, rhowch eich rhesymau am hyn ynghyd ag unrhyw dystiolaeth a gwaith ymchwil i gefnogi eich sylwadau.**

**Gellir cyflwyno eich ymatebion i'r ymgynghoriad ar-lein, trwy e-bost neu drwy'r post:**

**AR-LEIN:** <https://beta.llyw.cymru/ymgyngoriadau>

[Deddf1aA.MUPAct@gov.wales](mailto:Deddf1aA.MUPAct@gov.wales)

Tîm Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018  
y Tîm Polisiâu Camddefnyddio Sylweddau  
Ail Lawr  
Llywodraeth Cymru  
Rhyd-y-car  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

### YMHOLIADAU

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau am yr ymgynghoriad hwn, anfonwch e-bost i:

[Deddf1aA.MUPAct@gov.wales](mailto:Deddf1aA.MUPAct@gov.wales)

## FFURFLEN YMATEB I'R YMGYNGHORIAD

ENW:

SEFYDLIAD (OS YW'N BERTHNASOL):

E-BOST:

RHIF FFÔN:

CYFEIRIAD:

**Cwestiwn 1:** A ydych chi'n cytuno â'r lefel gychwynnol a ffeirir gan Lywodraeth Cymru o Isafbris Uned o 50c?

**Cwestiwn 2:** Rydym yn gwahodd sylwadau ar y lefel gychwynnol a ffeirir gan Lywodraeth Cymru o Isafbris Uned o 50c, a nodir yn y Rheoliadau Drafft sydd wedi eu cynnwys yn Atodiad 1.

**Cwestiwn 3:** Hoffem wybod beth yw eich barn ar effeithiau'r cynigion hyn ar yr iaith Gymraeg, yn benodol mewn perthynas â

- i) cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a
- ii) trin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Beth fyddai'r effaith yn eich barn chi? Sut byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu leihau'r effeithiau negyddol?

**Cwestiwn 4:** Hefyd eglurwch, yn eich barn chi, sut y gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig er mwyn:

- i) cael effaith gadarnhaol neu fwy o effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg
- ii) peidio â chael effaith negyddol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a thrin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

**Cwestiwn 5:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i wneud hynny:

Rhowch eich sylwadau yma:

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwyd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddiennw, ticiwch yma.